

# Colegau arbenigol annibynnol

Yn gyffredinol, mae colegau arbenigol annibynnol yn darparu lefelau uchel o **ofal, cymorth ac arweiniad** sy'n cefnogi **lles** dysgwyr yn llwyddiannus.

## Beth sy'n mynd yn dda

- At ei gilydd, mae colegau'n cynnig amgylcheddau tawel, cefnogol a meithringar.
- Ar hyd y pandemig, mae colegau wedi parhau i addasu eu dulliau mewn modd hyblyg i fodloni anghenion dysgwyr. O ganlyniad, mae gan ddysgwyr lefelau uchel o les ac maent wedi parhau i wneud cynnydd addas yn eu dysgu.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae cydlynu cymorth arbenigol i fodloni anghenion cymhleth dysgwyr yn rhy amrywiol. Nid yw staff yn deall ac yn cymhwyso strategaethau cyfathrebu'n gyson i gefnogi anghenion cyfathrebu dysgwyr.



At ei gilydd, mae colegau'n cynnig **profiadau dysgu** dilys ac mae eu **dulliau addysgu** yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth yn effeithiol.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae tiwtoriaid a staff cymorth yn darparu cymorth sylwgar a gofalgar. Maent yn gyfarwydd iawn ag anghenion eu dysgwyr ac yn meithrin perthynas waith gref â nhw.
- Yn gyffredinol, mae tiwtoriaid yn cynllunio'n ofalus i ddarparu ystod berthnasol ac ystyrlon o brofiadau dysgu. Mae hyn yn cynorthwyo i ddatblygu gwydnwch, annibyniaeth a medrau bywyd dysgwyr.
- Mae tiwtoriaid yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithle yn ofalus ac mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gref o'r ystyriaethau iechyd a diogelwch perthnasol.

## Beth sydd angen ei wella

- Nid yw addysgu'n bodloni anghenion cymhleth dysgwyr yn ddigon da bob tro.
- Mae gormod o amrywioldeb o ran ansawdd y cymorth sy'n cael ei gynnig gan staff cymorth.



Mae **arweinwyr** yn parhau i fod yn wydn ac yn hyblyg wrth iddynt ailadeiladu ar ôl y pandemig a chynllunio ar gyfer gwelliant.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae arweinwyr colegau wedi cynnig arweinyddiaeth gref o ddydd i ddydd ar hyd y pandemig.
- Maent wedi addasu eu darpariaeth mewn modd hyblyg i barhau i ddarparu addysg a bodloni anghenion cyfnewidiol dysgwyr.
- Lle mae arweinyddiaeth yn arbennig o gryf, mae arweinwyr wedi ysgogi gwelliannau strategol hirdymor i ddarpariaeth, gan gynnwys datblygu cyfleusterau newydd ar gyfer dysgu.

## Beth sydd angen ei wella

- Nid yw dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n ddigon da ar gefnogi dysgu mewn lleoliad arbenigol.
- Nid yw prosesau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yn canolbwyntio'n gyson ar effaith addysgu ar safonau a chynnydd dysgwyr.
- Mae recriwtio a chadw staff cymorth dysgu â phrofiad a chymwysterau priodol yn parhau i fod yn her.